



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cynllun Rhyddhau Adref o'r Ysbyty – Sir Gaerfyrddin a Cheredigion

**Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig
Ystad Ddiwydiannol Dafen
Dafen
Llanelli
SA14 8QN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

03/08/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chynllun Rhyddhau Adref o'r Ysbyty – Sir Gaerfyrddin a Cheredigion

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cymorth cartref
Darparwr cofrestredig	Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	27 a 28 Tachwedd 2017
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Arweinir y gwasanaeth gan reolwyr ymroddedig sy'n cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwr llinell a'r unigolyn cyfrifol sy'n arwain y gwasanaeth hwn. Mae'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr gofal yn parchu'r rheolwr a gwerth y gwasanaeth iddynt. Mae goruchwyliaeth dda gan yr unigolyn cyfrifol, sy'n siarad â gweithwyr gofal fel rhan o'i hymweliadau Rheoliad 73, ond y mae angen iddi fod yn gryfach.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn siarad yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth â therfyn amser y maent yn eu derbyn trwy'r Gwasanaeth Rhyddhau Adref o'r Ysbyty. Mae'r staff gofal yn dangos gwybodaeth dda am anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae'r staff yn frwdfrydig am weithio i'r gwasanaeth, hyd yn oed yn ystod cyfnodau o ansicrwydd ynghylch cyllid parhaus. Mae tystiolaeth dda o bobl a/neu eu cynrychiolydd yn ymwneud â'u gofal, ond dylid cynnwys mwy o fanylion mewn cynlluniau gofal.

Llesiant

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r staff yn wybodus a gofalgar ac yn ymfalchïo yn y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt. Mae cynlluniau personol yn darparu rhywfaint o wybodaeth am y person, ond mae angen manylion ychwanegol. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl gan fod y gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith arnynt; mae hyn wedi'i gofnodi'n dda. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnwys y bobl yn y prosesau o sicrhau ansawdd, gan gynnwys ei chyfrifoldebau o dan Reoliad 73. Mae gan y staff gofal fynediad at bolisiau a gweithdrefnau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol weledigaeth glir ac maent yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth dda o'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo am gyfnod o amser cyfyngedig sy'n cael effaith gadarnhaol arnynt a'u teuluoedd. *"Mae wedi bod o gymorth mawr gwirioneddol i mi ar adeg pan oeddwn ar fy isaf."* Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n golygu bod y bobl yn gallu cyfathrebu drwy siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dewis. Mae'r trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a chymorth cywir gan weithwyr gofal â sgiliau a gwybodaeth.

Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen, ac mae ganddynt hyder yn y rheolwyr, y staff a'r gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth â therfyn amser drwy'r Cynllun Rhyddhau Adref o'r Ysbyty. Cynhelir asesiadau cychwynnol a chynhyrchir cynlluniau gofal o'r rhain. Mae'r cynlluniau'n rhoi trosolwg o anghenion y person. Fodd bynnag, mae angen rhagor o wybodaeth am sut i gyflenwi'r gofal a chymorth er mwyn hysbysu gweithwyr gofal yn well. Bydd hyn yn sicrhau parhad gofal a chefnogaeth i'r unigolyn tra bydd yn cael y gwasanaeth. Mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu yn ystod cyfnod y gwasanaeth. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a chyflenwi eu gofal.

Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth maent yn ei gael gan ei fod yn eu galluogi i aros gartref wrth roi'r hyder iddynt aros mor annibynnol â phosibl. Dywedodd y bobl wrthym, *“Maen nhw'n wych, a dwi ddim yn gwybod lle byddwn i hebbyn nhw”* ac *“Mae'r gwasanaeth yn amhrisiadwy ac rwyf wedi ei ddefnyddio tair gwaith. Mae'r staff gofal yn fedrus iawn ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i mi - mae'n wasanaeth personol iawn y dylid ei ehangu.”* Wrth drafod y gwasanaeth, dywedodd cynrychiolydd wrthym, *“Roedd hi'n poeni am ddod adref ond maen nhw wedi rhoi cymaint o hyder iddi.”* Mae gweithwyr ieched a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â gofalu am bobl pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr yn defnyddio'r tîm amlddisgyblaethol gofal canolraddol, sy'n wasanaeth ar-lein sy'n rhoi cyngor, arweiniad a chyfeiriad.

Mae gan y bobl reolaeth dros y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *“Fi sy'n gyfrifol am fy ngofal ac maen nhw'n fy mharchu.”* Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo i weithio tuag at eu nodau, sydd fel arfer yn adennill eu hannibyniaeth, a dywedwyd wrthym, *“Mae ofn yn gallu anablu gymaint ond maen nhw'n rhoi'r hyder i mi wneud pethau fy hun.”*

Mae'r bobl yn elwa ar dîm ymroddedig o staff cyson sy'n eu hadnabod yn dda. Dywedodd unigolyn wrthym, *“Maen nhw mor sensitif a thosturiol o fy sefyllfa”* ac *“Maen nhw'n bobl fendigedig – ni allaf eu canmol nhw ddigon. Rwy'n cael yr un gofalwyr fel y gallaf feithrin perthynas â nhw.”*

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i warchod y bobl rhag COVID-19. Maent yn glir ynghylch y defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol a mesurau atal a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau, cymorth a hyfforddiant ar waith i sicrhau bod y staff gofal yn cynnal diogelwch a llesiant y bobl.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Arweinir y gwasanaeth gan reolwyr ymroddedig sy'n cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwr llinell a'r unigolyn cyfrifol. Mae'r rheolwyr yn dangos gwybodaeth dda iawn am y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gweithwyr gofal maent yn eu cyflogi. Mae'r unigolyn cyfrifol ar gael yn rhwydd i gefnogi'r rheolwyr a gyda'i gilydd maent yn creu tîm arwain cryf i ysgogi'r gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn cael goruchwyliaeth a chymorth rheolaidd gan eu rheolwr llinell.

Fel rhan o Reoliad 73, mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio adborth gan y bobl a pherthnasau sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth. Ceisir adborth gan y staff hefyd, ond dywedodd rhai o'r staff wrthym nad ydynt yn gwybod pwy yw'r unigolyn cyfrifol. Codwyd hyn yn ystod cyfarfod adborth yr arolygiad gyda'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan dîm o staff sydd wedi'u hysgogi, sy'n cael eu gwerthfawrogi ac sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae pob gweithiwr gofal sydd wedi llenwi holiadur arolygu yn dweud wrthym eu bod yn cael eu cynorthwyo'n dda iawn gan y rheolwr a'r sefydliad. Dywedodd y staff wrthym, *“Mae'r rheolwyr yn gefnogol a bob amser ar gael i ni ochr arall y ffôn”, “Mae'r rôl yn eithriadol o bleserus, a byddwn yn ei hystyried fel y swydd orau a gefais erioed”, “Mae fy rheolwr bob amser yn gefnogol iawn. Mae hi'n rheolwr ardderchog. Mae hi bob amser yn gwneud ymdrech i ddod i adnabod aelodau'r tîm, yn barod i gefnogi'r staff, a bob amser yn mynegi diolch a gwerthfawrogiad. Bydd hi bob amser yn gofyn am adborth ac yn ceisio dod o hyd i atebion.”*

Mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid parhaus ar gyfer y gwasanaeth wedi rhoi llawer iawn o bwysau ar y gweithwyr gofal. Dywedodd y staff wrthym, *“Mae hwn wedi bod yn gyfnod llawn straen – roeddwn i'n meddwl fy mod i'n mynd i golli fy swydd”* ac *“Mae wedi bod yn ofnadwy peidio â gwybod a oedd gen i swydd i fynd iddi, ac mae hefyd yn peri pryder i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi.”* Er bod y staff o dan y pwysau hyn, nodir eu bod yn parhau i weithio'n galed i ofalu a chefnogi'r bobl yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn canmol y staff sy'n eu cynorthwyo. Gwnaethant ddweud wrthym, *“Mae'r bobl sy'n dod yma yn wych – allech chi ddim cael gwell ac maent yn galonddid i fi pan maent yn galw”* ac *“Maent [y staff] yn wych – wn i ddim lle byddwn i hebddynt.”*

Penodir staff yn dilyn proses recriwtio drylwyr, ac mae'r holl gofnodion yr edrychwyd arnynt yn cynnwys y dogfennau recriwtio angenrheidiol. Mae'r staff yn cael ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r cofnodion hyfforddi yn cadarnhau hyn. Mae mesurau sefydlu, cyfnod prawf a goruchwyllo ar waith. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo a'u cynorthwyo'n rheolaidd ac, ar y cyfan, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghofnodion y staff. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith i gefnogi'r staff a'r rheolwyr.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad (au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad cyhoeddi Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi